# Llunio Porth Digidol Anthem drwy lais pobl ifanc greadigol.




# Ymgynghoriad gyda phobl ifanc greadigol sy'n byw yng Nghymru

## Ebrill-Gorffennaf 2022

## ADRODDIAD

# Mynegai

**Tudalen**


| | |
|---|---|
| **1. Crynodeb a chanfyddiadau allweddol** | **3** |
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 3 |
| Canfyddiadau allweddol yr ymgynghoriad | 3 |
| **2. Ynglŷn â'r Arolwg a'r Ymgynghoriad** | **4** |
| Pam wnaethon ni gynnal yr arolwg a'r ymgynghoriad? Pwy oedd yn cymryd rhan? | 4 |
| Sut cafodd y partneriaid eu dewis? | 5 |
| Sut wnaethon ni gynnal yr arolwg a'r ymgynghoriad? | 7 |
| **3. Beth ddywedodd yr Arolwg a'r Ymgynghoriad Wrthym** | 8 |
| Lle ydych chi'n mynd ar hyn o bryd i chwilio am wybodaeth am yrfa gerddorol / y diwydiant cerddoriaeth? | 8 |
| Pa gefnogaeth fyddai'n eich helpu chi i ddatblygu eich gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth? | 9 |
| Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n wynebu rhwystrau i yrfaoedd yn y diwydiant cerddoriaeth? | 10 |
| Pa gynnwys hoffech chi ei weld ar Borth Digidol Anthem? | 12 |
| Pa fformat ddylai fod i'r cynnwys? | 18 |
| Beth sydd ei angen arnoch chi gan Borth Digidol Anthem? | 20 |
| Pe byddech chi am greu porth digidol, beth fyddech chi'n ei alw? | 21 |
| **4. Casgliad** | 22 |
| **ATODIAD 1: Ynglŷn â'r bobl ifanc** | **23** |
| Demograffeg | 23 |
| Hygyrchedd a Rhwystrau'r Diwydiant Cerddoriaeth | 26 |
| **ATODIAD 2: Ynglŷn â'r sefydliadau** | **28** |
| **ATODIAD 3: Ynglŷn â'r Awdur - Violet Hunt-Humphries** | **29** |

# 1. Crynodeb a Chanfyddiadau Allweddol

**Ynglŷn â'r adroddiad hwn**

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi barn 85 o bobl ifanc greadigol 16-25 oed sy'n byw yng Nghymru wrth iddynt drafod pa adnoddau ar-lein y byddai eu datblygiad gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth yn elwa ohonynt. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys arolwg ar-lein a sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2022.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar lunio cynnwys Prosiect Porth Digidol Anthem drwy lais pobl ifanc greadigol. Roedd yn gofyn y cwestiynau canlynol: pa wybodaeth gefnogol, cyngor a chynnwys yr hoffent eu gweld yn cael sylw ar y Porth; pa fformatau fyddai'n apelio atynt; yr hyn sydd arnynt ei angen ohono; pa gymorth yn y diwydiant cerddoriaeth maen nhw'n ymwneud ag ef ar hyn o bryd; a pha rwystrau maen nhw'n eu hwynebu.

Casglwyd barn drwy
- arolwg ar-lein - 85 o ymatebwyr
- 16 sesiwn ymgynghori - ar-lein, wyneb yn wyneb a thrwy e-bost gyda 79 o ymatebwyr.

Cafodd yr ymgynghoriad ei reoli a'i hwyluso gan Violet Hunt-Humphries - Cynorthwyydd Ymchwil a Gweinyddol Anthem a cherddor ifanc. Mae'r adroddiad cryno hwn wedi ei ysgrifennu gan Violet Hunt-Humphries ac wedi ei olygu gan Rhian Hutchings.

**Canfyddiadau Allweddol yr Ymgynghoriad**

Roedd yr ymgynghoriad yn archwilio lle'r oedd yr ymatebwyr yn dod o hyd i wybodaeth am y diwydiant cerddoriaeth a pha gymorth yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo oedd ei angen arnynt i'w helpu i symud ymlaen mewn gyrfaoedd yn y diwydiant cerddoriaeth.

Y prif lefydd yr oedd yr ymatebwyr eisoes yn eu defnyddio i ddod o hyd i wybodaeth oedd y cyfryngau cymdeithasol, grwpiau ar-lein, ffrindiau a theulu, a chyrsiau addysgol. Instagram oedd y sianel cyfryngau cymdeithasol a ystyriwyd y ffynhonnell fwyaf defnyddiol.

O ran y math o gymorth roedd pobl ifanc ei eisiau i'w helpu i symud ymlaen yn y diwydiant cerddoriaeth, nodwyd y themâu allweddol canlynol drwy'r ymgynghoriad:
- ➔ Gwybodaeth ac arweiniad
- ➔ Adnoddau ar gyfer gwahanol gamau gyrfa
- ➔ Magu hyder

- ➔ Cysylltu â gweithwyr proffesiynol y diwydiant a rhwydwaith ehangach

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oedden nhw'n teimlo eu bod yn wynebu rhwystrau i yrfaoedd yn y diwydiant cerddoriaeth a daeth y themâu canlynol i'r amlwg o'r ymgynghoriad:

- ➔ Rhwystrau ariannol
- ➔ Rhwystrau daearyddol
- ➔ Rhwystrau ynghylch hunaniaeth ac amgylchiadau bywyd

Bu'r ymgynghoriad hefyd yn archwilio ffurf a chynnwys arfaethedig Porth Digidol Anthem. Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa gynnwys yr hoffent ei weld ar y Porth a pha fformatau yr oeddent yn credu y dylid eu defnyddio ar y Porth.

Roedd y cynnwys allweddol a amlygwyd yn yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- ➔ Cysylltiadau, cydweithio a rhwydweithio
- ➔ Cyfleoedd
- ➔ Deall busnes cerddoriaeth
- ➔ Rhyddhau cerddoriaeth a gwneud arian
- ➔ Creu a rhannu cerddoriaeth
- ➔ Iechyd meddwl / corfforol a hyder
- ➔ Y cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo
- ➔ Swyddi'r diwydiant cerddoriaeth

Y prif fformatau a awgrymwyd ar gyfer y Porth gan yr ymatebwyr oedd fideos byr, ffeithluniau syml, canllawiau ar sut i wneud, a blogiau / darnau byr o wybodaeth. Awgrymodd yr ymatebwyr eu bod yn dymuno gweld fformatau sy’n plesio'n esthetig ac sy’n hawdd eu defnyddio a’u llywio.

Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedden nhw'n teimlo y dylid galw'r 'Porth'. 'Porth' oedd yr awgrym mwyaf poblogaidd.

# 2. Ynglŷn â’r Arolwg a'r Ymgynghoriad

**Pam y gwnaethom ni gynnal yr arolwg a'r ymgynghoriad?**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn gan Anthem i fwydo i mewn i’r gwaith o ddatblygu a llunio Porth Digidol Anthem. Bydd y Porth yn blatfform adnoddau ar-lein i gefnogi pobl ifanc greadigol ar eu llwybrau gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth. Cenhadaeth Anthem yw rhoi llais yr ifanc wrth wraidd yr holl waith a phrosiectau a wneir. Bydd siarad yn uniongyrchol â phobl ifanc greadigol i glywed eu barn am ba gynnwys, fformatau a chymorth y byddent yn ei chael yn fuddiol yn helpu i wneud y mwyaf o effaith y Porth sy'n cael ei greu i'r cyfranogwyr hyn ei ddefnyddio.

**Pwy Oedd yn Cymryd Rhan?**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ym mis Mai a mis Mehefin 2022. Trefnwyd a hwyluswyd grwpiau trafod gan Violet Hunt-Humphries, cynorthwyydd ymchwil a gweinyddol Anthem ar gynllun lleoliad Kickstart y llywodraeth, a chaiff ei mentora gan Brif Swyddog Gweithredol Anthem, Rhian Hutchings.

**Yr Arolwg Ar-lein**

Lansiwyd yr arolwg ar-lein ar 1 Ebrill 2022 a chafodd ei hyrwyddo trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Anthem yn ogystal â chael ei ddefnyddio gyda chyfranogwyr yr ymgynghoriad. Defnyddiwyd Survey Monkey i adeiladu'r arolwg a dadansoddi data.

**Y Sesiynau Ymgynghori**

Cynhaliwyd y grwpiau trafod canlynol fel rhan o'r ymgynghoriad rhwng mis Ebrill a mis Mehefin gydag ystod o bartneriaid, pobl ifanc a staff.

| Dyddiad | Partner/Sefydliad | Oedran ac Amgylchiadau'r Cyfranogwyr | Nifer y Cyfranogwyr | Staff<br>*AFfI = Aelod o'r Fforwm Ieuenctid* |
|---|---|---|---|---|
| 12.04.22 | Mynychwyr Digwyddiad CMC | 16-30 Pobl ifanc greadigol yn y diwydiant cerddoriaeth | 5 | Violet H-H + Tori Sillman |
| 05.05.22 | Mynychwyr Focus Cymru | 16-30 Pobl ifanc greadigol yn y diwydiant cerddoriaeth | 20 | Violet H-H + Tori Sillman |
| 19.05.22 | Fforwm Ieuenctid Anthem | 16-25 Pobl ifanc greadigol | 12 | Violet H-H + Asa + Rhian (Anthem) |
| 22.05.22 | Mynychwyr Uwchgynhadledd Beacons | 22 Rheolwr artistiaid | 1 | Violet H-H + Rhian Hutchings |
| 25.05.22 | Busnes Cerddoriaeth PDC | 18-30 Myfyrwyr Busnes Cerddoriaeth | 4 | Violet H-H + Lloyd George |
| 28.05.22 | Grŵp Niamh CBCDC | 18-25 Myfyrwyr Cerddoriaeth Jazz | 4 | Violet H-H + AFfI Niamh |
| 04.06.22 | Inscape Band | 18-28 Cerddorion | 3 | Violet H-H + AFfI Sam |
| 07.06.22 | Mynychwyr y Siop Siarad | 21-27 Pobl ifanc greadigol yn y diwydiant cerddoriaeth | 3 | Violet H-H + Dafydd Poole |
| 10.06.22 | Larynx Entertainment | 23 Cerddor | 1 | Violet H-H |
| 10.06.22 | Cerddorion Ifanc Grŵp Aisha | 18-22 Pobl ifanc greadigol | 2 | Violet H-H + Aisha Kiggs |
| 12.06.22 | Ysgol Uwchradd Plasmawr | 15-16 Myfyrwyr ac aelodau band ysgol | 4 | Violet H-H |
| 15.06.22 | High Grade Grooves Endaf | 18-30 DJs | 3 | Violet H-H + Endaf |
| 17.06.22 | Cerddorion Ifanc Addison | 17-25 Cerddorion | 3 | Violet H-H + AFfI Addison |
| 20.06.22 | Grŵp Liam CBCDC | 18-25 Myfyrwyr Cerddoriaeth Glasurol | 5 | Violet H-H + AFfI Liam |
| 22.06.22 | Sound Progressions | 16-29 Cerddorion | 4 | Violet H-H + Carole Blade |
| 28.06.22 | UCAN | 15-24 Pobl ifanc greadigol rhannol ddall | 5 | Violet H-H + Alys (UCAN) |

**Sut cafodd y partneriaid eu dewis?**

Ar ôl cysylltu â 25 o sefydliadau gwahanol ledled Cymru (trwy e-bost a ffôn) sy'n gweithio yn y sector cerddoriaeth ieuenctid, cytunodd 16 o sefydliadau i gymryd rhan. Cyfrannodd y partneriaid eu hamser a'u cymorth mewn nwyddau i gynorthwyo'r ymchwil er budd datblygiad creadigol pobl ifanc.

Gan mai cyfnod cyfyngedig oedd gennym i gynnal yr ymgynghoriad, nid oedd modd i ni ymgysylltu â'r holl bartneriaid posibl y cysylltwyd â hwy gan nad oedd llawer yn

gallu rhoi amser i'r prosiect o fewn ein hamserlen. Roedd cyllideb hefyd yn broblem, a dylid nodi y byddai'r gallu i dalu cyfranogwyr i gymryd rhan wedi golygu y gallai mwy o grwpiau fod wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn. Mae hwn yn fater y dylid ei ystyried yn y dyfodol gan y byddai'n rhoi mwy o reolaeth dros ddewis partneriaid ar sail daearyddiaeth, demograffeg, anabledd a chynhwysiant hunaniaeth.

Isod mae manylion ynghylch cwmpas y partneriaid a wnaeth gymryd rhan. Mae'r data a gasglwyd gennym yn gwyro tuag at Dde-ddwyrain Cymru a byddai'n dda gweld mwy o gynrychiolaeth o Ogledd, Gorllewin a Chanolbarth Cymru mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol. Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn gerddorion. Unwaith eto, byddai'n dda siarad ag ystod ehangach o fathau a rolau creadigol y diwydiant cerddoriaeth mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol.

**Daearyddol** - Mae llawer o'r sefydliadau dan sylw yn gweithio'n bennaf o Gaerdydd gyda phobl ifanc greadigol o bob rhan o ardaloedd daearyddol gwahanol Cymru. Bu'n haws cynnwys partneriaid yng Nghaerdydd gan fod rhai eisoes wedi gweithio gydag Anthem neu mewn cyswllt agos â'r hwylusydd ac yn barod i helpu. Eithriadau nodedig oedd grŵp Endaf sy'n gweithio yng Ngogledd Cymru, Inscape Band sydd wedi'i leoli yn Abertawe, a chyfranogwyr FOCUS Cymru sy'n dod o bob rhan o Gymru.

**Y Diwydiant Cerddoriaeth (nid cerddorion o reidrwydd)** - dewiswyd myfyrwyr Busnes PDC i bartneru â nhw er mwyn cael dealltwriaeth o bobl ifanc greadigol o'r sector busnes, ac amlygu barn pobl greadigol y diwydiant nad oeddent o reidrwydd yn gerddorion.

**Arddulliau Cerddorol** - DJs yn gweithio yn y sîn EDM (Cerddoriaeth Ddawns Electronig) oedd grŵp Endaf, ac roedd gan yr ymatebwyr dan sylw safbwynt gwahanol iawn i gerddorion eraill sy'n chwarae offerynnau neu sydd mewn bandiau. Roedd ymatebwyr o Sound Progressions, Mynychwyr CMC a Larynx Entertainment yn cynnwys cerddorion o'r sîn rap, *grime* a hip hop, a thynnodd y grwpiau hyn sylw at wahanol bwyntiau yn seiliedig ar ddiwylliannau a chyfeiriadau eu diwydiant cerddoriaeth.
Roedd y ddau grŵp o CBCDC yn cynnwys cerddorion o gefndiroedd clasurol a jazz, sy'n dueddol o fod ag agwedd llawer mwy traddodiadol ac academaidd at yrfaoedd cerddoriaeth.

**Oedran** - Myfyrwyr Ysgol Uwchradd Plasmawr oedd yr ymatebwyr ieuengaf, a diddorol oedd siarad â cherddorion iau oedd ar gam cynharach yn natblygiad eu gyrfa gerddorol.
Roedd rhai o aelodau grŵp UCAN yn iau eto ac roedd ystyried llwybr gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth yn beth newydd iawn iddynt. Gwnaeth ymatebwyr UCAN rai pwyntiau diddorol iawn am waith theatr yn ogystal â gwaith cerddoriaeth ac, er nad ydynt eto wedi ystyried gyrfaoedd mewn cerddoriaeth, roedd yn bwysig iawn gweld sut roeddent yn ystyried cerddoriaeth fel gyrfa a beth oedd ganddynt i'w ddweud am y Porth ar gyfnod mor gynnar yn eu gyrfaoedd.

**Anabledd** - Mae UCAN yn gweithio gyda phobl ifanc rhannol ddall ac roedd yn ddefnyddiol iawn cael eu barn hwy ar lunio'r Porth. Roedd eu barn yn debyg iawn i

bobl ifanc greadigol eraill heb anabledd, ond dylanwadwyd ar eu hymatebion gan eu namau ac roeddent yn canolbwyntio llawer mwy ar fformatau a chynnwys mewn perthynas â sain.

**Demograffeg** - Fe wnaethom estyn allan at gyfranogwyr o ystod eang o gefndiroedd rhywedd, ethnigrwydd ac economaidd-gymdeithasol, ac roedd amrywiaeth o wahaniaethau demograffig ar draws yr ymatebwyr. Fodd bynnag, gyda mwy o amser a chyllideb gallem fod wedi sicrhau amrywiaeth ehangach o ymatebwyr.

**Sut y gwnaethom gynnal y trafodaethau ymgynghori?**

Cynhaliwyd 16 o weithdai trafod dros Zoom, dau wyneb yn wyneb yng ngweithle'r partner neu mewn digwyddiadau, a chwblhawyd yr arolwg ar-lein gan unigolion. Anogwyd yr holl gyfranogwyr i rannu eu barn drwy'r cwestiynau trafod a'r arolwg.

Hwyluswyd yr holl drafodaethau gan Violet Hunt-Humphries ac ar adegau gyda chymorth partneriaid a chydweithwyr a nodwyd yn y tabl uchod. Er bod opsiynau Cymraeg wedi'u cynnig i bob partner, cynhaliwyd yr holl drafodaethau trwy gyfrwng y Saesneg. Llenwodd pob cyfranogwr ffurflenni caniatâd ynglŷn â chael eu recordio a chymryd rhan yn ein hymgynghoriad.


Roedd y sesiwn drafod wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

| Gweithgaredd | Disgrifiad |
|---|---|
| Cyflwyniad | Cyflwyno'r tîm a chyfranogwyr y drafodaeth. |
| Eglurhad | Crynhoi pwy yw Anthem, beth yw'r Porth Digidol a beth roedd yr ymgynghoriad yn ei archwilio |
| Ffurflen Ganiatâd | Llenwodd y cyfranogwyr ffurflen ganiatâd. |
| Arolwg | Llenwodd y cyfranogwyr yr arolwg os nad oeddent wedi gwneud hynny eisoes. |
| Cwestiynau Trafod | 1. Ble ydych chi'n mynd ar hyn o bryd i chwilio am wybodaeth am yrfa gerddorol / y diwydiant cerddoriaeth?<br>1. Pa gymorth/gwybodaeth fyddai'n eich helpu i ddatblygu eich gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth?<br>2. Mae Anthem yn creu porth digidol i gerddoriaeth i bobl ifanc yng Nghymru:<br>- Pa gynnwys hoffech chi ei weld yno?<br>- Ym mha fformat ddylai'r cynnwys fod?<br>- Beth sydd arnoch ei angen ohono?<br>3. Cwis POP - Pe baech chi'n mynd ati i greu porth digidol beth fyddech chi'n ei alw? |
| Gwerthuso | Crynhoi'r hyn a ddwedwyd a'i drafod a gofyn i'r cyfranogwyr a oedd unrhyw sylwadau eraill yr hoffent eu hychwanegu ynghylch yr ymgynghoriad neu'r sesiwn drafod ei hun. |

| | |
|---|---|
| Diolch | Diolchwyd i'r cyfranogwyr am eu hamser a'u cymorth wrth lunio'r Porth. |

# 3. Yr hyn a Ddywedodd yr Arolwg a'r Ymgynghoriad Wrthym

## *Ble ydych chi'n mynd ar hyn o bryd i chwilio am wybodaeth am yrfa gerddorol / y diwydiant cerddoriaeth?*




Fel y gwelwch uchod, dangosodd yr arolwg ar-lein mai Instagram, y cyfryngau cymdeithasol, rhwydweithio ac ar lafar yw'r modd y mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn edrych am gyngor ar yrfa gerddorol yn bennaf ar hyn o bryd. Cysylltiadau o blith sefydliadau oedd nesaf, ac yna apiau eraill y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter, Tik Tok a Whatsapp. Llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, llyfrau, papurau newydd a chylchgronau ddaeth yn olaf. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r byd ar-lein rydym yn byw ynddo ac yn dangos cymaint o ddefnydd sydd o'r cyfryngau cymdeithasol, a hefyd sut mae'n hwyluso'r arfer o ofyn am gyngor gan bobl rydych chi'n eu hadnabod.

Cafwyd canlyniad tebyg iawn yn y trafodaethau ymgynghori: Crybwyllwyd Instagram ac ar lafar gan 11 o'r 16 grŵp; yna chwilotwyr y rhyngrwyd fel Google i ddod o hyd i gysylltiadau o blith sefydliadau / gweithwyr proffesiynol y diwydiant; Facebook, Youtube a Twitter ddaeth nesaf, a nodwyd gan 4 o'r grwpiau; dim ond un grŵp a drafododd blatfformau eraill y cyfryngau cymdeithasol fel Linkedin a Bandcamp a gwefannau eraill fel Undeb y Cerddorion.

## *Pa gymorth fyddai'n eich helpu i ddatblygu eich gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth?*

Soniodd ymatebwyr yr ymgynghoriad am amrywiaeth o bethau gwahanol y teimlent y byddent yn helpu eu cynnydd yn y diwydiant cerddoriaeth.

**Gwybodaeth ac Arweiniad**

Ym mhob trafodaeth ymgynghori, soniodd o leiaf un ymatebwr am yr angen am gynnwys sy'n gyfredol, i'r pwynt ac yn wirioneddol ddefnyddiol, gan ddarparu gwybodaeth fuddiol am y diwydiant. Mae pobl ifanc greadigol yn edrych am gyngor cyflym a pherthnasol sy'n hawdd ei ddeall ac sy'n dod o ffynhonnell ddibynadwy. Mae'r rhyngrwyd yn llawn gwybodaeth gamarweiniol nad yw'n ddefnyddiol, felly mae gallu dod at ffynhonnell wybodaeth hysbys i ddod o hyd i ystod o ganllawiau yn amhrisiadwy i bobl ifanc greadigol Cymru.

*"Lle i ddod o hyd i ffynonellau gwybodaeth sy'n uniongyrchol, dilys a dibynadwy i gael yr union beth sydd arnoch ei angen ohono, heb gymhlethdodau nac adnoddau gwael."*

**Adnoddau ar gyfer Gwahanol Gamau Gyrfa**

Dywedodd ymatebwyr yr ymgynghoriad eu bod eisiau gwybodaeth a oedd yn helpu pobl ar wahanol gamau yn eu gyrfa, o ddechreuwyr i bobl sydd eisoes â phroffil yn y diwydiant.

Roedd myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Plasmawr eisiau gwybod am "*gyfleoedd i gerddorion ifanc sy'n dechrau gyrfa fel perfformiwr/artist*." Buont yn trafod eu cariad at gerddoriaeth fel band ysgol, ac roeddent yn awyddus i ddechrau ystyried sut beth allai gyrfa mewn cerddoriaeth fod iddynt hwy drwy ddysgu pa lwybrau a chyfleoedd sydd ar gael.

Soniodd cyfranogwyr Sound Progressions eu bod eisiau "*arweiniad ar beth yw bod yn gerddor proffesiynol fel gyrfa a sut i ddod yn gerddor broffesiynol.*" Maen nhw eisoes yn y sin gerddoriaeth weithredol ac eisiau gwybodaeth am sut i ddod yn gerddorion proffesiynol.

Soniodd ymatebydd yn nigwyddiad Cynhadledd Gerddoriaeth Caerdydd eu bod eisiau cyngor ynghylch sut i wella sioe i gerddorion teithiol a oedd eisoes â hanes cryf ond a oedd am wella ansawdd eu perfformiad trwy gyngor ar ddelweddau, sain a goleuo.

**Meithrin Hyder**

Roedd myfyrwyr cerddoriaeth glasurol CBCDC eisiau cyngor gyrfa a fyddai'n cynyddu eu hyder yng ngyrfaoedd y diwydiant cerddoriaeth ac yn eu helpu i droi eu hangerdd yn ddewis gyrfa dilys. Fel cerddorion clasurol, dwedent mai llwybrau gyrfa traddodiadol a chul iawn oedd yn cael eu cynnig iddynt drwy eu cwrs. Sonient fod

darlithwyr a chysylltiadau mewn sefydliadau yn rhoi llawer o bwyslais ar lwybrau gyrfa academaidd ac addysgu. Dywedent hefyd fod llawer o bwysau i wthio eich hun i ragori, gan fod cystadleuaeth fawr i ymuno â cherddorfeydd a chael rolau perfformio. Gwnaethant y sylw mai ychydig iawn o gyngor, os o gwbl, oedd ar gael ynghylch sut beth fyddai gyrfa wahanol ym myd cerddoriaeth pe na baent yn dewis llwybrau clasurol hynod gystadleuol.

**Cysylltu â Gweithwyr Proffesiynol y Diwydiant a Rhwydwaith Ehangach**

Roedd creu cysylltiadau ar draws y diwydiant, gyda chymheiriaid a gweithwyr proffesiynol hysbys yn y diwydiant yn thema gref arall a ddaeth i'r amlwg. Rhwydweithio oedd yr angen a amlygwyd fwyaf ar gyfer pobl ifanc greadigol a oedd yn awyddus i ddatblygu eu gyrfaoedd. Teimlai'r ymatebwyr y byddai cael rhwydwaith mwy yn golygu y gallai mwy o bobl eu hargymell.

Roedd myfyrwyr busnes cerddoriaeth PDC eisiau dod i gyswllt â gweithwyr proffesiynol y diwydiant a fyddai'n ymateb yn gadarnhaol ac yn eu cynorthwyo drwy gynnig cyngor yn enwedig o safbwynt busnes.

Trafododd Grŵp Addison y fantais o gwrdd â chysylltiadau yn y diwydiant yn bersonol yn y pen draw, o ganlyniad i gysylltu drwy'r Porth. Teimlai'r ymatebwyr ei bod yn anodd dod i gyswllt â gweithwyr proffesiynol heb gyflwyniad am nad ydynt yn siŵr pa gysylltiadau sy'n werthfawr ac yn aml nid ydynt yn hyderus ynghylch sut i fynd o'i chwmpas hi.

## *Ydych chi'n teimlo eich bod yn wynebu rhwystrau i yrfaoedd yn y diwydiant cerddoriaeth?*

Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r arolwg rai rhwystrau allweddol a brofwyd gan yr ymatebwyr.

**Rhwystrau Ariannol**

Cafodd cyllid ei grybwyll yn aml fel rhwystr. Mae gallu buddsoddi yn eich gyrfa gerddoriaeth a thâl isel am swyddi/gigs yn y diwydiant yn bendant yn dylanwadu ar a yw pobl ifanc yn teimlo y gallant ddilyn cerddoriaeth fel gyrfa. Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau hefyd ynghylch pa mor anodd oedd hi i gydbwyso gyrfa gerddoriaeth a swydd amser llawn i gynnal bywoliaeth a bod hyn yn cael effaith ar eu ffordd o fyw, yn gorfforol ac yn feddyliol. Soniwyd hefyd am effaith negyddol toriadau i gyllid cynghorau ar gyfer y celfyddydau, lleoliadau, digwyddiadau a diwylliant yng Nghymru.

**Rhwystrau Daearyddol**

Soniodd yr ymatebwyr am rwystrau daearyddol hefyd. Roedd pobl sy'n byw y tu allan i ddinasoedd yn ei chael hi'n anoddach dod o hyd i gyfleoedd lleol. Nid yw trafnidiaeth gyhoeddus o ardaloedd gwledig i'r dinasoedd yn gyson nac yn derbyn adnoddau digonol ac mae hyn yn effeithio ar gerddorion sy'n teithio i ardaloedd lle

mae mwy o gyfleoedd ac yn lleihau eu cyfleoedd i fynd i gigs a digwyddiadau sy’n helpu i dyfu eu rhwydwaith.

*“Byw yng Nghymru yw ein rhwystr mwyaf. Nid yw'r seilwaith i gynnal sîn gerddoriaeth lewyrchus yn bodoli. O'r blynyddoedd cynnar, trwy addysg gynradd ac uwchradd i weithgareddau cymunedol; mae pob maes yn ddiffygiol. Yna, os llwyddwch i oresgyn y rhwystrau hynny, mae Cymru’n llawn o glybiau sy’n darparu ar gyfer partïon stag/plu yn hytrach na darparu ar gyfer sîn gerddoriaeth leol, annibynnol. Mae hyn i gyd yn gwneud i unrhyw unigolyn dawnus feddwl un peth...mae angen i mi symud i Lundain.”*

Soniodd yr ymatebwyr fod y diwydiant cerddoriaeth yn teimlo’n ddirlawn a chystadleuol. Roeddent yn teimlo ei fod yn ymwneud yn bennaf â 'phwy rydych chi'n ei adnabod' nid 'beth rydych chi'n ei wybod.' Roedd pobl sy'n ansicr o ble a sut i rwydweithio yn teimlo dan anfantais.

“*Oni bai eich bod eisoes yn adnabod pobl, mae'n anodd cychwyn yn y sîn.*”

**Rhwystrau mewn perthynas â hunaniaeth, cefndir ac amgylchiadau bywyd**

Soniodd llawer o ymatebwyr am rwystrau yn sgil hunaniaeth, eu cefndir neu amgylchiadau bywyd penodol, yn cynnwys ethnigrwydd, rhywioldeb, rhyw ac oedran. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo dan anfantais am fod yn unigryw neu'n wahanol i normau presennol cymdeithas.


*“Ystrydebau cyffredin sy’n cael eu defnyddio’n barhaus yn fy erbyn fel aelod balch o’r LHDTCRhA – yn anffodus mae rhagfarn yn rhan gyffredin iawn o fy nhaith i adeiladu gyrfa lwyddiannus fel cerddor”*

Dywedodd ymatebwyr iau nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cymryd o ddifrif gan y diwydiant, gan y caiff ei dybio y gallent fod yn llai profiadol neu'n naïf. Roedd ymatebwyr hŷn yn teimlo eu bod ar eu colled gan nad ydynt yn gweddu i ystod 'ieuenctid' y mae llawer o sefydliadau'n ei defnyddio ac yn methu â gwneud cais am gyfleoedd gyrfa sy'n ymddangos fel pe baent yn canolbwyntio ar ddatblygiad ieuenctid. Maent hefyd yn teimlo eu bod yn gweithio yn erbyn y cloc o ran datblygu gyrfa ym myd cerddoriaeth, gan eu rhoi dan anfantais yn barod.

**Rhwystrau Eraill**

Ymhlith y rhwystrau eraill a grybwyllwyd roedd:
- diffyg addysg am swyddi yn y diwydiant cerddoriaeth. Dywedodd rhai ymatebwyr, fel myfyrwyr sy'n gadael addysg, eu bod yn teimlo nad oeddent wedi dysgu’r holl sgiliau ac agweddau ar yrfa gerddoriaeth y byddai eu hangen arnynt yn y byd go iawn.
- diffyg gwybodaeth a chyngor buddiol am yrfaoedd yn y diwydiant. Teimlai'r ymatebwyr fod diffyg adnoddau sy'n esbonio'r gwahanol fathau o lwybrau a rolau swyddi yn y diwydiant cerddoriaeth. Roedd cyngor gyrfaoedd yn aml yn awgrymu nad yw gyrfa ym myd cerddoriaeth yn ddewis gyrfa gwerthfawr ('go iawn').

## *Pa gynnwys hoffech chi ei weld ar Borth Anthem?*




Mae'r tabl uchod yn dangos yr ymatebion i'r arolwg ar-lein. Rhoddwyd sgôr uchel i yrfaoedd yn y diwydiant cerddoriaeth, cyngor marchnata a chyfleoedd, ac yna cyngor ar berfformiad, trafodaethau/gweminarau ar-lein, a hawliau ac agweddau cyfreithiol ar gerddoriaeth. Roedd y gofynion am gynnwys sydd â sgôr is yn cynnwys gwybodaeth am stiwdios, ystafelloedd ymarfer a lleoliadau, gwybodaeth yn canolbwyntio ar gerddoriaeth am 'beth sydd ymlaen' a straeon taith.

Gwnaeth 24 o 85 o ymatebwyr sylwadau pellach drwy'r arolwg a bu'r grwpiau ymgynghori hefyd yn trafod y cynnwys. Isod mae'r prif feysydd cynnwys a nodwyd yn rheolaidd.

**Cysylltiadau, Cydweithio a Rhwydweithio**
Soniodd traean o ymatebwyr yr arolwg a roddodd sylwadau am gyfleoedd rhwydweithio a'r angen i ddod o hyd i rai i gydweithio â nhw, nid yn unig ar gyfer cerddoriaeth ond hefyd ar gyfer gwahanol sgiliau fel hyrwyddo a ffotograffiaeth. Argymhellodd y rhai a ymatebodd i'r arolwg a'r grwpiau trafod i'r ymgynghoriad system broffil neu ofod cymunedol lle gallai pobl greadigol ddod i gyswllt â phobl ifanc greadigol eraill a gweithwyr proffesiynol y diwydiant a phostio eu cynnwys yn gyhoeddus i roi rhagolwg o'u gwaith. Buont hefyd yn trafod cael ardal hysbysfwrdd lle byddai modd cyhoeddi galwadau am brosiectau sy'n chwilio am gydweithwyr a gallai unrhyw un â diddordeb ymateb yn uniongyrchol.

*"Fforwm lle gall pobl bostio eu hanghenion (e.e. cân i'w chynhyrchu/cymysgu, gitâr i'w thracio ar record ac ati) a lle gall cymheiriaid addas ddod o hyd i'r hysbysebion hyn ac ymateb iddynt."*

Gwnaeth ymatebwyr i'r ymgynghoriad o fand Inscape, PDC, Sound Progression, Cynhadledd Cerddoriaeth Caerdydd, Focus Cymru, a'r Siop Siarad oll sôn am le i'w cynorthwyo i rwydweithio. Soniwyd am ystod o anghenion, gan gynnwys lle i siarad â gweithwyr proffesiynol y diwydiant, cydweithio ar brosiectau, dod o hyd i fideograffwyr, cysylltu â chynhyrchwyr, hyrwyddwyr a mentoriaid, a lle i drafod straeon o lwyddiant a theithiau artistiaid eraill. Awgrymodd rhai ymatebwyr system chwilotwr wedi'i labelu o weithwyr proffesiynol y diwydiant. E.e. o chwilio am 'ffotograffydd', byddai pob ffotograffydd i'w gweld a byddai modd i chi gysylltu â nhw.

**Cyfleoedd**
Soniodd ymatebwyr yr arolwg a grwpiau trafod am yr angen am fynediad ehangach i gyfleoedd cyfredol sy'n cael eu cynnig gan y diwydiant a'r angen am gyfleoedd datblygu mwy strwythuredig yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.

Soniodd pob grŵp trafod am restru cyfleoedd ar y Porth, ac roedd amrywiaeth o anghenion penodol yr oedd ymatebwyr yn dymuno mynd i'r afael â nhw drwy restr o gyfleoedd. Soniodd grŵp UCAN am fod eisiau cyfleoedd gigio ar gyfer eu genres penodol, yn ogystal â chyfleoedd cerddoriaeth mewn theatrau, a lleoliadau profiad (gwirfoddol a chyflogedig). Nodwyd hefyd yr angen am gyfleoedd i ganolbwyntio ar bobl greadigol iau, o dan 16 oed, ym myd cerddoriaeth, a bod angen cyfleoedd recordio am ddim.

Soniodd myfyrwyr busnes cerddoriaeth PDC am fantais cael y cyfle i fynd ymlaen i gyfleoedd ym maes busnes cerddoriaeth ar ôl gadael y brifysgol, a gwnaed y sylw ei bod yn bwysig cael mwy o fynediad i gyfleoedd cysgodi, gwirfoddoli, hyfforddeiaethau a rolau lefel mynediad. Awgrymwyd cysylltiadau i gyfleoedd gwaith ar gyfer cerddorion sesiwn, goruchwylwyr cerddoriaeth a chyfansoddwyr, a chyfleoedd cyhoeddi i artistiaid.

Soniodd Fforwm Ieuenctid Anthem am gyfleoedd gwaith comisiwn a gwaith yn y diwydiant. Roedd myfyrwyr Inscape Band a CBCDC yn hoffi'r syniad o hysbysebu cyfleoedd perfformio yn amserol. Roedd ymatebwyr CMC yn chwilio am gyfleoedd i berfformio ar lwyfannau a digwyddiadau mwy ledled y byd, yn ogystal â'r cyfle i ddod o hyd i raglenni datblygu artistiaid cyffredinol. Roedd mynychwyr Uwchgynhadledd Beacons hefyd eisiau cyfleoedd mentora ar gyfer pob math o ddatblygiad gyrfa. Soniodd mynychwyr y Siop Siarad am gyfleoedd profiad gwaith a chysgodi anffurfiol/ffurfiol. Hoffai grŵp Endaf y cyfle i fod yn rhan o gytundebau noddi.

**Deall Busnes Cerddoriaeth**
Dangosodd yr arolwg fod angen mawr gan ymatebwyr am wybodaeth am fusnes cerddoriaeth. Roedd sylwadau'r arolwg a'r grwpiau trafod yn pwysleisio'r angen hwn, a thrafodwyd ystod eang o faterion ac anghenion.

Trafodwyd cyswllt â gweithwyr cerddoriaeth proffesiynol ym mron pob trafodaeth, ac roedd yr ymatebwyr eisiau cyfle i glywed eu straeon a gofyn cwestiynau iddynt. Soniodd myfyrwyr PDC am gael cyflwyniadau/gweminarau am fusnes cerddoriaeth gyda gweithwyr proffesiynol o labeli recordio a chwmnïau cyhoeddi i ofyn cwestiynau

am rolau ym maes busnes cerddoriaeth. Cyfeiriodd myfyrwyr CBCDC ac aelodau Sound Progression at fudd cynnwys sy'n cynnig cyngor gan bobl yn y diwydiant sydd ar eu ffordd i lwyddo neu sydd eisoes yn llwyddiannus, beth maen nhw'n ei wneud yn iawn, a beth fu eu anawsterau yn ogystal â chwestiynau ac atebion cyffredinol. Soniodd mynychwyr CMC am gael *"podlediadau/fideos am straeon gyrfa'r diwydiant cerddoriaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n weithgar yn y diwydiant cerddoriaeth fodern heddiw."*

Roedd ymatebwyr eisiau gwybod am y canlynol:
- gweithio i labeli recordio,
- cael eich troed yn y drws,
- awgrymiadau ac offer i helpu i ddod o hyd i swyddi ym maes busnes cerddoriaeth,
- cyngor ar gynhyrchu digwyddiadau, labeli recordiau ledled y byd, cyhoeddwyr, sefydliadau'r diwydiant cerddoriaeth ac asiantaethau archebu
- sut i ddod i gyswllt â gorsafoedd radio yn broffesiynol drwy e-bost, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb
- straeon y tu ôl i'r llenni am gymeriadau cefn tŷ, y tîm sy'n trefnu teithiau, peirianwyr a thimau cynhyrchu
- blogiau ac erthyglau gan gymheiriaid o'r un anian sydd mewn sefyllfa debyg i helpu i weld ble maen nhw arni a beth y gallent ei wella
- Cytundeb Recordio neu Annibynnol - manteision ac anfanteision a'r opsiynau sydd ar gael

Roedd gan ymatebwyr ddiddordeb hefyd mewn sut i ddod i gyswllt â gweithwyr proffesiynol y diwydiant cerddoriaeth. Roedd myfyrwyr CBCDC eisiau gwybod pa fformatau y dylent eu defnyddio wrth anfon atodiadau o'u gwaith/prosiectau i weithwyr proffesiynol y diwydiant fel eu bod yn hygyrch. Soniodd y grŵp hwn hefyd am ba mor ddwys y gall y gystadleuaeth fod ar gyfer clyweliadau ar gyfer rolau a phrosiectau cerddoriaeth. Roedd ganddynt ddiddordeb mewn cael cyngor ar sut i gyflwyno eich set sgiliau yn hyderus heb ymddangos yn drahaus. Roedd Grŵp Larynx eisiau cyngor ar sut i gysylltu â gweithwyr proffesiynol a sut i amlygu eu hunain wrth ddod i gyswllt â nhw. Roedd mynychwyr CMC a grŵp Sound Progression eisiau cyngor ar fod yn weithiwr proffesiynol a sut i gysylltu ag eraill, a'r agweddau a'r sgiliau cymdeithasol sydd eu hangen i wneud y gorau o gyfleoedd rhwydweithio.

**Rhyddhau Cerddoriaeth a Gwneud Arian**
Themâu a grybwyllwyd dro ar ôl tro gan grwpiau trafod ac ymatebwyr i'r arolwg oedd materion cyfreithiol ac ariannol yn ymwneud â rhyddhau cerddoriaeth. Roedd ymatebwyr eisiau cyngor ar gofrestru gyda'r Performing Rights Society (PRS) a'r Phonographic Performance Limited (PPL), gweithio gyda chwmnïau Cysylltiadau Cyhoeddus, deall hawlfraint, breindaliadau, cyfrifwyr, cyfreithwyr a buddsoddwyr.

Roedd ymatebwyr eisiau awgrymiadau ar sut i gael eich talu am gerddoriaeth, boed drwy ryddhau cerddoriaeth ar-lein, gwerthu cynnyrch/gwasanaethau neu godi tâl am eich perfformiadau. Gofynnodd myfyrwyr clasurol CBCDC am gymorth ynghylch sut i gyd-drafod cyllid, pa fath o ffi i'w chodi ar adegau penodol o'ch gyrfa heb werthu eich hun yn rhy rad ond sydd hefyd yn swm rhesymol. Roeddent hefyd eisiau gwybodaeth am agweddau cyfreithiol ar gerddoriaeth a gwahanol ffyrdd o gael eu talu am eu

celf/perfformiadau/cyhoeddiadau. Roedd aelodau Sound Progression hefyd eisiau canllawiau ar PRS a hawlio hawliadau breindal i wybod sut i ddechrau ennill arian o'ch cerddoriaeth, yn ogystal â faint i'w godi am gigs, sesiynau a chyfweliadau ac ati. Roedd myfyrwyr jazz CBCDC eisiau cysylltiadau i gomisiynau posibl trwy gais neu rîl arddangos a allai roi incwm iddynt o gerddoriaeth.

*"Mae pob prosiect dwi'n ei wneud yn cael ei ariannu gennyf fi fy hun. Mae gwneud pethau i safon broffesiynol uchel yn costio miloedd o bunnoedd a dwi'n dibynnu ar addysgu ac aberthu er mwyn cyflawni hyn. At hynny, mae'r disgwyliad cynyddol yma y byddwch chi'n rhoi swm sylweddol i mewn i gysylltiadau cyhoeddus gyda chwmnïau cyfryngau cymdeithasol trwy bostiadau hwb heb unrhyw sicrwydd o ganlyniad. Mae'n ymddangos bod rhai rhaglenni ariannu yn poeni mwy am ddilynwyr y cyfryngau cymdeithasol, niferoedd a phoblogrwydd na theilyngdod ac ansawdd y gerddoriaeth ei hun."*

Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr at yr angen am gyllid i ddatblygu eu gyrfaoedd, gan gynnwys pa gyllid sydd ar gael ar gyfer gwahanol yrfaoedd a gweithgareddau yn y diwydiant cerddoriaeth (fel teithio a recordio), a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwahanol fathau o ymgeiswyr fel artistiaid, sefydliadau, busnesau annibynnol. Awgrymodd ymatebwyr fod y Porth yn cynnwys rhestr o'r holl opsiynau ariannu a phwy maen nhw'n bwriadu eu hariannu gyda chyfeiriadau/cyfeiriaduron yn arwain at ffurflenni cais a dyddiadau cau, yn ogystal ag awgrymiadau a chanllawiau ar sut i ysgrifennu ceisiadau llwyddiannus ar gyfer pob opsiwn ariannu penodol. Roedd grŵp Endaf yn benodol eisiau gwybodaeth am grantiau i DJs.

Soniwyd yn aml am yr angen am gyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf am ryddhau cerddoriaeth, cytundebau recordio, dosbarthu a chael cytundeb. Roedd ymatebwyr eisiau arweiniad clir ar wahaniaethau, manteision ac anfanteision yr holl opsiynau. Gofynnodd grŵp Addison am gynnwys ar ble i ddechrau wrth ryddhau cerddoriaeth a pha blatfformau i'w defnyddio (Instagram neu Spotify) ac ati. Gofynnodd myfyrwyr clasurol CBCDC am gyngor ar baratoi datganiad llwyddiannus i'r wasg i'w anfon i labeli, yn ogystal â siarad am gyngor cyffredinol ar ryddhau. Roedd grŵp Aisha eisiau cyngor ar sut i ryddhau cerddoriaeth ar gyllideb.

Roedd grŵp Sound Progression hefyd eisiau gwybodaeth am sut i ddewis y rheolwyr gorau fel artist. Awgrymodd un o fynychwyr Focus Cymru gynnwys yn archwilio'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gan dimau cysylltiadau cyhoeddus a'r hyn na ddylech ei ddisgwyl. Roedd aelodau Fforwm Ieuenctid Anthem eisiau arweiniad ynghylch osgoi twyll a chamfanteisio fel artist newydd ac awgrymiadau ar sut i fod yn ymwybodol o ddilysrwydd pobl a chyfleoedd yn y diwydiant.

**Creu a Rhannu Cerddoriaeth**
Daeth cyngor a chymorth ar wneud a rhannu cerddoriaeth i'r amlwg hefyd fel thema gref yn yr arolwg a'r grwpiau trafod.

Awgrymwyd ystod eang o syniadau am gynnwys, yn canolbwyntio ar ysbrydoli ansawdd a chreu cynnwys unigryw. Awgrymodd myfyrwyr busnes cerddoriaeth PDC sesiynau tiwtorial ar ysgrifennu, cynhyrchu, bwcio/creu gigs a chreu nwyddau hyrwyddo. Roedd grwpiau eraill gan gynnwys grŵp Larynx, mynychwyr Focus Cymru

a mynychwyr Cynhadledd Cerddoriaeth Caerdydd eisiau: tiwtorialau ar ysgrifennu, cynhyrchu, peirianneg, a pherfformio; awgrymiadau ar recordio gartref; pa offer i'w gael a thriciau peirianneg sain; awgrymiadau ar galedwedd a meddalwedd sy'n cael eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u profi i helpu ansawdd y gwaith a gynhyrchir; cyngor ar ba offer i'w ddefnyddio i gynhyrchu synau penodol fel peiriannydd; cyngor ar offer, DAWs, sut i osod (meic er enghraifft); gwybodaeth am y diwydiant KPOP a gwybodaeth am feddalwedd MIDI a mynediad ato; awgrymiadau ar ddylunio goleuadau.

*"Help ar sut i chwarae cerddoriaeth yn anghonfensiynol yn hytrach na meddwl bod yn rhaid i chi ddilyn llwybr penodol, sut i feddwl y tu allan i'r bocs."*

Awgrymodd ymatebwyr yr arolwg gynnwys yn ymwneud â gigio; cyfnewid cyfleusterau gigio, cyfleoedd gigio a sut i'w cael. Roedd Grŵp Larynx eisiau arweiniad ar berfformio o ran sut i fod yn broffesiynol a bod yn amlwg ac awgrymiadau ar sut gael eu bwcio. Trafododd mynychwyr y Siop Siarad fanteision cael llyfryn hyfforddiant y cyfryngau i ddangos i chi sut i gyflwyno eich hun. Hoffai grŵp Endaf o DJs gael cyfleoedd lle nad chwarae rhwng bandiau yn unig maen nhw, gan gael eu cynnwys fel prif act neu act ategol. Soniodd Grŵp Addison am gael canllawiau ar gyfer artistiaid sy'n dod i'r amlwg ar gael eu bwcio mewn gwyliau. Gofynnodd mynychwyr Focus Cymru sut i gael gigs nad ydynt yn eich tref enedigol er mwyn cynyddu eich carfan o ddilynwyr. Awgrymodd aelodau Fforwm Ieuenctid Anthem gael teclyn canfod gigs lle gallech chi ddod o hyd i gigs mewn unrhyw ardal.

Amlygodd y grwpiau trafod fod galw am restr o leoliadau i chwarae ynddynt ledled Cymru. Awgrymodd mynychwyr Focus Cymru a CMC y dylid cael rhestrau o'r holl leoedd gweithgarwch cerddoriaeth, fel: stiwdios recordio, ystafelloedd ymarfer, labeli recordio, stiwdios ffotograffiaeth, lleoliadau a sefydliadau. Awgrymodd myfyrwyr jazz CBCDC y dylid cael map o'r holl leoedd ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth lle gallwch chi eu gweld i gyd yn glir.

Amlygodd y trafodaethau hefyd awydd am ofod i wrando ar restrau chwarae defnyddwyr eraill, rhannu chwaeth gerddorol a demos, yn ogystal ag unrhyw gynnwys arall y mae artistiaid wedi'i greu. Dywedodd ymatebwyr y gallai'r nodwedd hon ddylanwadu ar gyfleoedd rhwydweithio a chydweithio ac ehangu ymwybyddiaeth o ddiwylliant creadigol lleol. Hoffai mynychwyr y Siop Siarad, cyfranogwyr Larynx a grŵp Endaf gael lle i lanlwytho cynnwys a gofyn am adborth gan artistiaid eraill. Byddent yn gwerthfawrogi beirniadaeth onest, adeiladol gan bobl greadigol sy'n deall yr hyn y mae'r diwydiant yn chwilio amdano. Awgrymwyd creu rhestr chwarae Anthem o fandiau Cymreig er mwyn i'r cyfranogwyr allu gweld beth arall sydd ar gael ar hyn o bryd. Hoffai mynychwyr Focus i'r Porth ddarparu lle i rannu adnoddau creadigol, gan gynnwys llyfrgell o guriadau ar gyfer rapwyr, cantorion neu gerddorion i helpu'r rhai na allant fforddio talu am gerddorion, stiwdio ac amser cynhyrchu.

**Iechyd Meddwl/Corfforol a Hyder**

Roedd ymatebwyr yr arolwg a'r grwpiau trafod eisiau cyngor ar gadw'n iach, cynnal agwedd gadarnhaol a sut i fagu hyder a pharhau'n hyderus yn wyneb beirniadaeth.

Gofynnwyd am awgrymiadau ar sut i fod yn gynhyrchiol wrth weithio ar brosiectau creadigol a chyngor ar gadw'n bositif ac yn iach yn feddyliol.

Roedd aelodau Fforwm Ieuenctid Anthem eisiau awgrymiadau ar ble i fynd i gael cyngor da ar iechyd meddwl. Cyfeiriodd myfyrwyr clasurol CBCDC at y mater o gydbwysedd bywyd a gwaith fel cerddor clasurol, gan fod gofyn iddynt ymarfer bob dydd am oriau hir i gyd-fynd â safonau'r diwydiant. Roeddent eisiau awgrymiadau ar faint o waith sy'n ormod a sut beth yw gyrfa gynaliadwy ym maes cerddoriaeth glasurol. Bu grŵp Addison yn trafod cydbwyso gyrfa gerddoriaeth a swydd. Roedd myfyrwyr Plasmawr eisiau cymorth gyda hyder cyffredinol fel cerddor, i'w helpu i ddatblygu eu hunaniaeth gerddorol, eu stori a'u nodweddion. Byddai mynychwyr CMC yn hoffi gweld grwpiau cymorth a gweminarau ynghylch meddylfryd ac iechyd meddwl. Gofynnodd rhai yn benodol am feithrin hyder artistiaid benywaidd a sgiliau cymdeithasol cyffredinol. Roedd mynychwyr y Siop Siarad hefyd eisiau cyngor ar sut i oresgyn ergydion fel artist. Soniodd aelod o UCAN am yr angen am gysylltiadau ar gyfer athrawon canu a fyddai'n gweithio gyda phobl greadigol sy'n rhannol ddall, gan godi'r angen am wasanaethau hygyrch a all waredu rhwystrau i yrfa ym maes cerddoriaeth a magu hyder.

**Y Cyfryngau Cymdeithasol a Hyrwyddo**
Ar draws yr ymgynghoriad, soniodd ymatebwyr yn rheolaidd am bwysigrwydd marchnata a hyrwyddo ac roeddent am gael awgrymiadau ar sut i'w wneud yn dda. Awgrymodd yr ymatebwyr gynnwys yn ymwneud â rheoli'r cyfryngau cymdeithasol, awgrymiadau ar greu cynnwys o safon, hunan-hyrwyddo, adeiladu cynulleidfa, ymgysylltu, brandio a marchnata. Soniodd grŵp Fforwm Ieuenctid Anthem am fod eisiau dod i amlygrwydd fel artistiaid ac roeddent eisiau arweiniad ar sut i gynnal y lefel honno o ymgysylltiad â'ch cynulleidfa unwaith y byddwch wedi cyrraedd y fan honno. Soniodd grŵp Addison, grŵp Endaf ac aelodau Sound Progression am fod eisiau cyngor ar sut i adeiladu bywgraffiad da ar-lein ar gyfer holl broffiliau'r artist yn y cyfryngau cymdeithasol er mwyn adeiladu cynulleidfa ac ymgysylltiad.

**Rolau yn y Diwydiant Cerddoriaeth**
Bu trafodaeth hefyd am rolau eraill yn y diwydiant cerddoriaeth. Roedd myfyrwyr busnes cerddoriaeth PDC yn benodol eisiau cymorth gyda rolau ym maes busnes cerddoriaeth a sut i gael swyddi mewn labeli recordio, neu hyd yn oed ddechrau eu label neu fusnes reoli eu hunain. Buont yn siarad am fod eisiau gwybodaeth am y mathau o rolau yn maes busnes cerddoriaeth a rhinweddau cynnwys sy'n dangos sut i gychwyn ym maes busnes cerddoriaeth wrth ddechrau arni.
Roedd grŵp Inscape eisiau cyngor ar ba fathau o swyddi sydd ar gael yn y diwydiant cerddoriaeth, sut i ddechrau ysgrifennu cerddoriaeth ar gyfer eraill a swyddi ym maes cyhoeddi. Bu myfyrwyr clasurol CBCDC yn trafod cynnwys sy'n darparu cymorth o amgylch y mathau o swyddi sydd yn y diwydiant, sut i greu CV cerddoriaeth da (beth sy'n edrych yn dda, beth sydd ddim) yn barod ar gyfer clyweliadau/swyddi yn syth ar ôl gadael y coleg/prifysgol. Roeddent hefyd eisiau awgrymiadau ar lywio gyrfa ar ôl gadael y brifysgol, yn benodol gwybodaeth am y camau nesaf mewn gyrfa ym maes cerddoriaeth glasurol, gan gael y gwaith a'r cyfleoedd pennaf a fydd yn datblygu gyrfa gynaliadwy.

Gofynnwyd hefyd am wybodaeth am weithio'n llawrydd, gan gynnwys hunangyflogaeth, ad-dalu benthyciad myfyrwyr, a chyllidebu. Hoffai mynychwyr Focus Cymru gael arweiniad ar sut i redeg lleoliad a chynnal digwyddiadau, gan gynnwys cefnogaeth a gwybodaeth i berchnogion lleoliadau annibynnol.

*“Nid yw system addysg y diwydiant cerddoriaeth yn wych. Dydyn nhw ddim yn dysgu popeth y dylech chi ei wybod a chyn gynted ag y byddwch chi'n camu i fyd gwaith mae'r rhan fwyaf o bobl yn dysgu sgiliau allweddol yn y swydd ...... Yn arbennig yn achos perfformwyr, gan nad yw’r rhan fwyaf o gyrsiau yn addysgu pwysigrwydd marchnata, hyrwyddo ac ati sy'n sgil hanfodol ar gyfer tyfu fel artist. Ac eto mae’n rhaid i chi gael math arall o addysg ar gyfer marchnata a sgiliau tebyg a all olygu eich bod yn aflwyddiannus fel artist os nad oes gennych chi’r sgiliau hynny.”*

Syniadau eraill gan ymatebwyr am gynnwys:


- Prynu/cyfnewid offerynnau i roi cynnig ar offerynnau eraill.
- Adnoddau ar thema gerddorol sy'n addysgu Cymraeg i oresgyn rhwystrau iaith.
- Cyfeiriadur yn llawn o holl rolau'r diwydiant gan gynnwys pethau fel rhestr o gerddorion o gefndiroedd y Mwyafrif Byd-eang - byddai hyn yn helpu pawb i sicrhau nad oes unrhyw esgus dros drefnu perfformwyr gwyn yn unig (gweler “The F-List" i gael ysbrydoliaeth).
- Cynrychiolydd y Gymraeg.
- Sut i ysgrifennu cynllun ar gyfer eich cerddoriaeth - cynllun blwyddyn, cynllun 5 mlynedd, bron fel cynllun busnes.

## *Pa fformat ddylai fod i’r cynnwys?*

Yn gyffredinol, awgrymodd ymatebwyr yr arolwg a’r trafodaethau fformatau sy’n ddymunol yn esthetig sy’n hawdd eu defnyddio a’u llywio. Roedd yr argymhellion poblogaidd yn cynnwys fideos byr, ffeithluniau syml, canllawiau ar sut i wneud, a blogiau / darnau byr o wybodaeth. O ran unrhyw wybodaeth sy'n arwain at fwy o adnoddau neu mewn rhestrau, y dewis pennaf oedd cael cyfeiriadau neu gyfeiriaduron syml er mwyn eu llywio'n hawdd.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno nad oedd cyrff mawr, helaeth o destun mor ddymunol a soniwyd bod pobl greadigol yn gyffredinol yn hoffi cynnwys sy’n ddifyr ac sy’n ysbrydoli yn weledol ac o ran sylwedd.

Soniodd yr ymatebwyr am sicrhau bod yr holl adnoddau/cynnwys ar gael mewn fformatau a oedd yn cynorthwyo pobl ag anableddau fel bod y Porth yn gwbl hygyrch. Er enghraifft, opsiynau sain fel podlediadau / sgript sain ar gyfer pobl greadigol sy'n ddall neu'n rhannol ddall ac is-deitlau ar fideos a fformatau gweledol i'r rhai sydd â nam ar eu clyw ac ati. Mae'r graff isod yn dangos canlyniadau'r arolwg ar-lein ynghylch y dewisiadau o ran fformatio.




Isod, mae tabl yn dangos sawl tro y soniwyd am fformatau gwahanol yn yr 16 grŵp trafod a gynhaliwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

**Tabl: Mathau o fformatau y soniwyd amdanynt gan y grwpiau ymgynghori**

| Math o Fformat | Nifer y grwpiau a soniodd amdanynt |
|---|---|
| Fideos Byr | 14 - gyda chymorth sain |
| Rhestrau o Ddolenni | 11 |
| Gweminarau | 11 - dylid eu recordio |
| Podlediadau | 8 |
| Canllawiau Sut i Wneud | 8 |
| Ffeithluniau | 6 |
| Cyfeirlyfr o sefydliadau a phobl | 6 |
| Erthyglau | 4 |
| Blogiau Byr | 4 |
| Rhestrau / Pwyntiau Bwled | 4 |
| Tiwtorialau | 3 |
| Proffiliau Cysylltiadau | 3 |
| Sgyrsiau byw ar-lein | 2 |
| Cynnwys chwiliadwy | 2 |
| Sylwadau eraill a wnaed | Mae pobl yn dysgu'n wahanol, mae cael fformatau amrywiol yn gwneud y Porth Digidol yn hygyrch i BAWB.<br>DIM TALPAU MAWR O DESTUN.<br>Gwefan gyda chynllun clir a syml iawn.<br>Fformatau/cynorthwywyr sain i'w wneud yn hygyrch i bobl rannol ddall.<br>Gwybodaeth sy'n werth ein hamser i eistedd a gwylio |

## *Beth sydd ei angen arnoch chi gan Borth Digidol Anthem?*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a fyddent yn bersonol yn defnyddio ac yn elwa o borth digidol sy'n canolbwyntio ar y diwydiant cerddoriaeth a dywedodd 96% o'r ymatebwyr y byddent. Yn ôl dadansoddiad o'r trafodaethau, yn y pen draw mae angen lle ar bobl ifanc greadigol i geisio cyngor dibynadwy ar yrfaoedd yn y diwydiant, ac adnoddau y gallant eu deall a'u llywio'n hawdd. Mae gan y diwydiant cerddoriaeth amrywiaeth o wahanol sectorau a sefydliadau, sy'n ei wneud yn lle anodd i ddod o hyd i lwybrau clir i yrfaoedd a gwybodaeth. Gallai bodolaeth y Porth fod o gymorth mawr i bobl ifanc greadigol ledled Cymru.

*"Yr un sylfaenol bwysig yw bod yna ymdeimlad o ddatblygu cymuned cerddoriaeth. Yn ail, gwybod beth sy'n digwydd a phryd."*


*"Man canolog lle gallaf gysylltu â phobl greadigol eraill neu drosglwyddo gwybodaeth a allai fod yn addas i mi neu fy nghyfoedion."*

Dyma brif themâu y trafodaethau mewn perthynas â'r hyn sydd ei angen ar bobl ifanc gan y Porth:

- ➔ Cael gwell dealltwriaeth o bobl broffesiynol a swyddi amrywiol yn y diwydiant.
- ➔ Cael mynediad at gymorth a gwybodaeth am yrfaoedd mewn un lle.
- ➔ Y gallu i lywio'n hawdd drwy adnoddau sy'n ddibynadwy, yn gyfoes ac yn realistig.
- ➔ Mwy o hyder yn llwybrau'r diwydiant cerddoriaeth, datblygiad gyrfa a chyfleoedd.
- ➔ Cael gwell dealltwriaeth o beth sydd ymlaen, ble a phryd yng Nghymru.
- ➔ Y gallu i fy helpu i sylweddoli ble rydw i arni ar hyn o bryd a mireinio / creu sut beth ydw i eisiau i'm gyrfa fod.
- ➔ Gwireddu'r cyfleoedd o'm cwmpas a magu hyder wrth ddilyn fy newis lwybr gyrfa a gweithio tuag at symud ymlaen.
- ➔ Meithrin gwell ymwybyddiaeth o sîn, diwydiant a diwylliant cerddoriaeth ledled Cymru.
- ➔ Lle i wella fy sgiliau a chael ymwneud â rhwydweithiau newydd.

## *Pe baech chi'n mynd ati i greu porth digidol beth fyddech chi'n ei alw?*

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylid ei alw'n rhywbeth nad yw'n gwyro'n rhy bell oddi wrth ei ddiben ac yn rhywbeth sy'n agos at frand Anthem, yn hytrach na'i fod yn rhywbeth ar wahân. Roedd amrywiaeth o syniadau gwahanol, yn amrywio o *Musical Community* a *Note for Note*, i *Circle of Sound*, *Harmony*, *Mission Music* ac *M-Hub*. Dyma gwmwl geiriau o'r holl eiriau a grybwyllwyd, yn amrywio o ran maint yn dibynnu ar sawl gwaith y cawsant eu crybwyll. *Gateway* (Porth) oedd yr awgrym mwyaf poblogaidd.




## 4. Casgliad

Mae’n amlwg bod pen draw i gwmpas yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Anthem yn ystod haf 2022, ac mae hyn yn rhywbeth y mae’n rhaid ei ystyried yn ofalus wrth gynnal yr ymgynghoriad nesaf. Fodd bynnag, mae adroddiad yr ymgynghoriad yn nodi naratif clir o angen gan y grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw a daeth themâu clir i'r amlwg i'r Porth eu cynnwys.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn bwydo i mewn i fersiwn 'beta' gyntaf Porth Anthem a fydd yn cael ei datblygu yn hydref 2022. Bydd angen gwneud dewisiadau ynghylch yr hyn a gaiff ei ddatblygu yn y cyfnod beta hwn, pa ddeunydd a gaiff ei gomisiynu, a chyda phwy y bydd Anthem yn gweithio. Mae perygl y bydd y Porth yn ceisio datrys yr holl geisiadau sy'n codi ar yr un pryd - archwiliodd ymatebwyr yr ymgynghoriad ystod eang iawn o gynnwys posibl ar gyfer y Porth.

Fodd bynnag, mae modd nodi rhai ffactorau allweddol sy’n codi yng nghanfyddiadau’r ymgynghoriad:

- ➔ fformat y wybodaeth - ei gadw'n glir ac yn hawdd ei ddeall;
- ➔ ansawdd a pherthnasedd y cynnwys - ei gadw'n gyfredol a chysylltu â

diwydiant;
- ➔ segmentu'r adnoddau'n glir - ei gwneud hi'n hawdd llywio rhwng gwahanol bynciau a genres;
- ➔ rhwydwaith cryf - mae pobl ifanc greadigol eisiau cysylltu â'u cyfoedion a gweithwyr proffesiynol y diwydiant.

Mae'n bwysig iawn i Anthem barhau i ymgynghori a chaniatáu i bobl ifanc ddylanwadu ar sut mae'r Porth yn datblygu yn y dyfodol. Dylid ystyried yr ymgynghoriad hwn fel dechrau'r sgwrs ac nid y diwedd. Mae gan y Porth botensial clir i ddatblygu a thyfu unwaith y bydd y fersiwn beta yn ei lle, a dylai pob cam yn ei ddatblygiad gael ei lywio gan bobl ifanc yng Nghymru.

## ***Diolch***


Diolch oddi wrth Anthem i bob un o'r 85 o ymatebwyr yr arolwg a phob un o'r 79 o gyfranogwyr y drafodaeth a rannodd eu barn er mwyn gallu llunio a datblygu Porth Digidol Anthem. Mae'r holl ddata wedi'i wneud yn ddienw at ddiben yr ymchwil hwn, ond mae gennym ganiatâd gan y staff canlynol a helpodd i hwyluso'r ymgynghoriadau hyn i grybwyll eu henwau fan yma:

Addison Gordon-Evans, Aisha Kigwalilo, Andy Jones, Åsa Malmsten, Carole Blade, Dave Acton, Dafydd Poole, Hannah Matthews, Jonathan Joff Gunter, Liam McGlinchey, Lloyd George, Niamh J O'Donnell, Dr Paul Carr, Rhian Hutchings, Sam Rees, Tori Sillman, Violet Hunt-Humphries.

# ATODIAD I: Ynglŷn â'r bobl ifanc

# Demograffeg Ymatebwyr yr Arolwg Ar-lein

## Rhywedd




Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn wrywod, ac wedyn benywod. Fel y gallwch weld, roedd cyfran lawer llai o gyfranogwyr Anneuaidd a hyd yn oed llai a nododd rhyweddhylifol, arall, neu bod yn well ganddynt beidio â dweud.


## Lleoliad

Ni wnaeth ymatebwyr y Grwpiau Trafod rannu eu cod post.

O holl ymatebwyr yr arolwg:
Mae 57 yn byw yng Nghaerdydd
Mae 13 yn byw yng Nghasnewydd
Mae 9 yn byw yng Ngorllewin Cymru
Mae 4 yn byw yng Ngogledd Cymru
Mae 1 yn byw yn y Canolbarth
Mae 1 yn byw yn Sunderland

Mae hyn yn cwmpasu amrywiaeth o Gymru o ran amrywiaeth ddaearyddol, ond mae mwy na 50% o'r ymatebwyr yn byw yng Nghaerdydd. Gallai fod mwy o gyfranogwyr o Ogledd, Gorllewin, Canolbarth a Dwyrain Cymru.

## Ydych Chi'n Siarad Cymraeg?





Roedd dros hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg naill ai'n siarad Cymraeg yn rhugl neu'n siarad rhywfaint o Gymraeg.

## Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd?

**Nid oedd gan 60% o'r ymatebwyr unrhyw anableddau.**


**Roedd gan tua 30% o'r ymatebwyr broblemau iechyd meddwl.**

**Roedd gan lai na 10% o'r ymatebwyr anabledd dysgu, problemau emosiynol/ymddygiadol neu anableddau eraill.**



## Ethnigrwydd

Mae'r siart cylch isod yn dangos cefndiroedd ethnig yr 85 a ymatebodd i'r arolwg. Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn y grwpiau trafod.




## Oedran


Roedd yr holl ymatebwyr rhwng 14 a 32 oed ac roedd cyfran fawr ohonynt rhwng 16-24 oed yn bennaf.

Dim ond 55 o'r 79 o gyfranogwyr y grwpiau trafod a lenwodd ffurflen gofrestru Google. Fodd bynnag, sefydliadau a oedd yn gweithio'n bennaf gyda phobl ifanc greadigol rhwng 14-25 oed oedd ein partneriaid ar gyfer y trafodaethau.
Roedd 26 o'r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen Google rhwng 16 a 22 oed.
Roedd 24 ohonyn nhw rhwng 23 a 25 oed.
Dim ond 4 o ymatebwyr oedd rhwng 26 a 30 oed ac roedd 1 ymatebydd yn 32 oed.
Roedd ymatebwyr yr arolwg rhwng 15 a 32 oed.


# Hygyrchedd a Rhwystrau'r Diwydiant Cerddoriaeth

## Ydych chi'n teimlo eich bod yn wynebu rhwystrau i yrfaoedd yn y diwydiant cerddoriaeth?

Roedd ychydig llai na 70% o ymatebwyr yr arolwg yn teimlo eu bod yn wynebu rhwystrau i yrfaoedd yn y diwydiant cerddoriaeth.





## Ydych chi'n teimlo bod gennych chi fynediad at wybodaeth/cymorth ar yrfaoedd yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru?




Roedd llai na 50% o ymatebwyr yr arolwg yn teimlo bod ganddynt fynediad at wybodaeth a chymorth ar yrfaoedd yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn y sesiynau trafod.

## A fyddech chi'n bersonol yn defnyddio ac yn elwa o borth digidol sy'n canolbwyntio ar y diwydiant cerddoriaeth?

Byddai 82/85 o ymatebwyr yn defnyddio ac yn elwa o borth digidol sy'n canolbwyntio ar y diwydiant cerddoriaeth!



# ATODIAD 2: Ynglŷn â'r grwpiau trafod

| Sefydliad | Cefndir |
|---|---|
| Ysgol Uwchradd Plasmawr | Ysgol uwchradd Gymraeg ym Mhentre-baen, Caerdydd. |
| PDC | Mae Prifysgol De Cymru yn brifysgol gyhoeddus yng Nghymru, gyda champysau yng Nghaerdydd, Casnewydd a Phontypridd. Fe'i ffurfiwyd ar 11 Ebrill 2013 ar ôl uno Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd. |
| Inscape Band | Band cerddorol o Abertawe sy'n creu cerddoriaeth roc a rôl flaengar. |
| CBCDC | Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn gonservatoire yng Nghaerdydd. Mae'n cynnwys tair theatr: Theatr Richard Burton, Theatr Bute, a Stiwdio Caird. Mae hefyd yn cynnwys un neuadd gyngerdd, Neuadd Dora Stoutzker. Mae'n cynnal cyrsiau cerddoriaeth yn ymwneud â genres jazz a cherddoriaeth glasurol. Ymhlith cyn-fyfyrwyr y coleg mae Anthony Hopkins, Aneurin Barnard a Rob Brydon. |
| Addison (Aelod o Fforwm Ieuenctid Anthem) a'i Ffrindiau | Criw o ffrindiau a cherddorion o bob rhan o Gymru. |
| Sound Progressions | Sefydliad yng Nghaerdydd yw Sound Progression sy'n ymroi i wella bywydau plant a phobl ifanc, yn enwedig rhai 10-25 oed ac o gefndiroedd amrywiol a/neu economaidd-gymdeithasol difreintiedig. |
| Larynx Entertainment | Platfform Hip-Hop/*Grime* Cymreig sy'n cefnogi datblygiad artistiaid ifanc yn Wrecsam. |
| CMC | Prosiect cynadledda ac arddangos sy'n cefnogi sîn gerddoriaeth MOBO De Cymru trwy GYSYLLTU, YSBRYDOLI a HYBU artistiaid cerddoriaeth sydd wedi hen ennill eu plwyf a rhai sy'n datblygu. |
| Beacons | Sefydliad Cymru gyfan yw Beacons sy'n ceisio grymuso'r genhedlaeth nesaf o bobl ifanc (16-25 oed) sy'n dyheu i weithio yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. |
| Focus Cymru | Mae FOCUS Wales yn ŵyl arddangos aml-leoliad ryngwladol sy'n cael ei chynnal yn Wrecsam. Mae'n rhoi sylw arbennig i'r dalent newydd sydd gan Gymru i'w chynnig i'r byd, ochr yn ochr â detholiad o artistiaid newydd gorau'r byd. |
| Y Siop Siarad | Mae'r Siop Siarad yn ganolfan wybodaeth ddiwylliannol a democrataidd sy'n annog ac yn hwyluso ymgysylltiad y cyhoedd â chreadigedd, y celfyddydau a diwylliant, a systemau a strwythurau democrataidd. |
| High Grade Grooves Endaf | Dechreuodd High Grade Grooves fel noson glwb yng Ngogledd Cymru yn 2015 a oedd yn hyrwyddo cerddoriaeth House a Nu Disco. Yn 2019 datblygodd High Grade Grooves i fod yn label recordio. Eu prif amcan yw hyrwyddo cerddoriaeth electronig sydd â'i gwreiddiau yng Nghymru, gan roi llwyfan i artistiaid a chynhyrchwyr o Gymru rannu eu cerddoriaeth y tu hwnt i ffiniau Cymru. |
| Aisha (Aelod o Fforwm Ieuenctid Anthem) a'i Ffrindiau | Criw o ffrindiau a cherddorion o bob rhan o Gymru. |
| UCAN | Mae UCAN Productions yn fenter gydweithredol ar gyfer perfformio a'r celfyddydau creadigol i blant a phobl ifanc dall a rhannol ddall a'u ffrindiau. |
| Fforwm | Mae Fforwm Ieuenctid Anthem yn dod â phobl ifanc greadigol 16-24 oed o gymysgedd o genres |

| | |
|---|---|
| Ieuenctid Anthem | a chefndiroedd cerddoriaeth at ei gilydd i weithio gydag Anthem dros gyfnod o flwyddyn a helpu i lunio’r dyfodol ar gyfer pobl ifanc greadigol yng Nghymru. |

# ATODIAD 3: Ynglŷn â’r Awdur - Violet Hunt-Humphries

Cerddor a aned yng Nghaerdydd yw Violet Hunt-Humphries a daw o deulu artistig. Mae’n gantores, gitarydd a phianydd sydd wrth ei bodd â cherddoriaeth o bob genre, ac mae’n mwynhau gweithio yn y gymuned greadigol.

Hi yw cyd-sylfaenydd prosiect cerdd gwirfoddol o'r enw Foxy Roxies. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi artistiaid lleol i ddatblygu portffolio trwy recordio/ffilmio sesiynau byw, tynnu lluniau, cyfweliadau a hyrwyddo. Mae’n creu cynnwys i gynorthwyo artistiaid ar eu teithiau a rhannu gweithiau a wneir gan y sin gerddoriaeth leol ar eu platfform. Mae FR yn brosiect rhwydweithio sy'n dod â phob math o bobl greadigol y diwydiant ynghyd yn ystod eu gweithgareddau gan gynnwys rheoli digwyddiadau.

Mae Violet yn chwaraewr allweddellau/synth ac yn fenyw flaen mewn band o'r enw Holiday In The Mind. Mae hefyd yn arwain ar ei phrosiect cerddorol diweddaraf, 'Nookee.' Hi sy’n rheoli’r ddau fand ar hyn o bryd.

Treuliodd Violet 6 mis yn cael ei chyflogi gan Anthem o dan leoliad Kickstart fel Cynorthwyydd Gweinyddol ac Ymchwil, gan dreulio ei hamser yn cynnal yr ymchwil hwn wrth ddechrau llunio Porth Digidol Anthem drwy drafodaethau gyda phobl ifanc greadigol ym maes cerddoriaeth ledled Cymru.

**2022**